

No.

PWYLLGOR CRAFFU PERFORMIADD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd, 2021

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd M.R. Wilson (Cadeirydd); Cynghorydd P. Drake (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, G.A. Cox, V.P. Driscoll, G. John, Dr. I.J. Johnson, and S. Sivagnanam.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr N. Moore (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau), L. Burnett (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio) and P.G. King (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth).

553 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

554 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr R. Crowley a J.W. Thomas.

555 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Hydref, 2021 fel cofnod cywir.

556 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

557 STRATEGAETH DDRAFFT HYRWYDDO IAITH GYMRAEG (CYF) –

Roedd yr adroddiad gan y Cabinet ar 8 Tachwedd 2021 wedi'i gynnwys yn yr agenda, fodd bynnag, gan nad oedd modd cynnwys y cyfeiriad yn yr agenda ar yr adeg y'i hanfonwyd, cafodd hwn ei uwchlwytho i'r wefan a'i ddsbarthu i'r Pwyllgor cyn y cyfarfod Craffu.

Dyweddod y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes, wrth gyflwyno'r adroddiad, fod Safonau'r Gymraeg (Safonau 145 a 146) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol:

- lunio a chyhoeddi Strategaeth bum mlynedd sy'n nodi sut y roddent yn bwriadu hybu'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach yn eu hardal;
- cynnwys targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal erbyn diwedd y cyfnod o bum mlynedd;
- cynnwys datganiad sy'n esbonio sut mae'r sefydliad yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw;
- adolygu'r Strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar y wefan o fewn pum mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni);
- ar ôl pum mlynedd, asesu i ba raddau yr oedd y Cyngor wedi dilyn y Strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed yr oedd wedi'i bennu;
- cyhoeddi'r asesiad ar y wefan, gan ddangos nifer y siaradwyr Cymraeg yn ardal yr Awdurdod Lleol, ac oed y siaradwyr hynny;
- nodi yn yr asesiad restr o'r gweithgareddau a drefnwyd neu a ariannwyd ganddynt i hybu'r Gymraeg yn ystod y 5 mlynedd blaenorol.

Roedd Atodiad A yr adroddiad yn rhoi asesiad o Strategaeth Hybu 2017-22 a drafft o strategaeth pum mlynedd newydd ar gyfer y cyfnod 2022-27. Roedd yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ymgynghori ar y dogfennau er mwyn llywio a chwblhau Strategaeth Hybu 2022-27 ac i lywio'r gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu i weithio tuag at gyflawni ei ymrwymadau.

Roedd Mr David Thomas, Ymgynghorydd Allanol, wedi cael cais i gynnal yr asesiad ac roedd yn bresennol yn y cyfarfod. Dywedodd Mr. Thomas wrth y Pwyllgor y dylai'r camau gweithredu o fewn Strategaeth pum mlynedd Bro Morgannwg adlewyrchu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP) 2022 - 2032. Tynnodd yr Ymgynghorydd sylw'r Pwyllgor at un o'r Safonau ynghylch a oedd Awdurdod Lleol wedi cynyddu neu gynnal ei nifer o siaradwyr Cymraeg. Dywedodd Mr Thomas wrth y Pwyllgor fod y Fro wedi cynnal y ffigurau dros y blynyddoedd ond nododd fod ffigurau disgyblion wedi cynyddu 11%. Soniodd hefyd fod y Cyngor, yn ei farn ef, yn rhoi llai o werth ar y gwaith yr oedd wedi'i wneud hyd yma, na ddylai. Byddai'r Cynllun Gweithredu hefyd yn allweddol i'r gwaith yn y dyfodol a byddai'n cael ei ddatblygu dros y misoedd nesaf. Nodwyd y byddai ymgynghoriad 8 wythnos yn cael ei gynnal gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiad pellach i'r Pwyllgor Craffu yn y flwyddyn newydd.

Wrth ystyried yr adroddiad, gofynnodd y Cadeirydd am ddarparu tabl o ddata mewn dogfennau yn y dyfodol yn cyfeirio at nifer y siaradwyr Cymraeg mewn ardaloedd o amddifadedd. Awgrymodd y Cadeirydd hefyd fod Addysg y Blynyddoedd Cynnar hefyd yn bwysig o ran hyrwyddo'r Gymraeg ac y gellid gwella hyrwyddo o'r fath drwy'r cyfryngau cymdeithasol, a bod angen cynnwys annog Cymraeg bob dydd o fewn y gymuned fusnes yn y Cynllun Gweithredu.

No.

Dywedodd y Cynghorydd Dr Johnson ei bod hefyd yn bwysig, yn ei farn ef, i gael ymdeimlad o hwyl, caredigrwydd a rhyngweithio i annog a datblygu'r Gymraeg mewn cymunedau. Ystyriwyd bod pwysigrwydd adlewyrchu profiadau bywyd go iawn a sut yr oedd pobl yn byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg yn elfen hanfodol ar gyfer y Cynllun Gweithredu.

Ategodd y Cynghorydd Sivagnanam bwysigrwydd ymgynghori â chymunedau a gofynnodd am i ragor o wybodaeth a safbwyntiau teuluoedd Saesneg eu hiaith a oedd wedi symud i'r ardal ac a oedd wedi lleoli plant mewn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg gael eu hadlewyrchu yn y gwaith.

Tynnodd yr Ymgynghorydd Allanol sylw at y ffaith y byddai gwybodaeth ddiweddaraf y Cyfrifiad pan fyddai ar gael hefyd yn cael ei chynnwys yn y Strategaeth yn ogystal â'r angen i ymgorffori astudiaethau achos. Roedd i fod i fynychu cyfarfod Fforwm ar 22 Tachwedd, 2021 a byddai'n ceisio cael gwybodaeth o'r fath o'r arena honno.

Gwnaeth y Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried y cyfeiriad, yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddynt

ARGYMELL -

(1) BOD y Cabinet yn cael gwybod am sylwadau'r Pwyllgor fel rhan o'r broses ymgynghori.

(2) BOD adroddiad pellach a Chynllun Gweithredu cysylltiedig yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Sicrhau bod sylwadau'r Pwyllgor yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad ymgynghori.

(2) Er mwyn i'r Pwyllgor allu ystyried y mater ymhellach yn dilyn yr ymgynghoriad.

558 PROSIECT SERO – CYFLAWNI'R CYNLLUN HER NEWID HINSAWDD (CYF) -

Cafodd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet ar 25 Hydref, 2021 ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu fel y'i cynhwysir yn yr agenda.

Dechreuodd y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes drwy ddweud bod yr adroddiad yn manylu ar y trefniadau llywodraethu arfaethedig ar gyfer Prosiect Sero a bod Bwrdd wedi'i sefydlu i fwrw ymlaen â'r Cynllun Her Newid yn yr Hinsawdd.

Holodd y Cynghorydd Carroll, yn ystod y drafodaeth, am effaith Prosiect Sero ar dai Cyngor yn y Fro ac mewn ymateb dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth ei fod

No.

yn ymwybodol bod cryn dipyn o waith wedi'i wneud o dan SATC, fodd bynnag, byddai'n gofyn am wybodaeth fanwl benodol am yr agwedd hon ac yn ei hanfon at yr Aelodau. Dywedodd Arweinydd y Cyngor, gyda chaniatâd i siarad, fod y Cyngor wedi ymrwymo i dai Sero-Net, Sero-Defnydd a bod cynlluniau'n cael eu llunio ar hyn o bryd, er y gallai fod yn rhaid ceisio caniatâd cynllunio hefyd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd John at gyfarfod diweddar yr oedd wedi'i fynychu yn Llanilltud Fawr lle'r oedd nifer o syniadau diddorol wedi'u cyflwyno gan drigolion lleol, fodd bynnag, roedd yn cydnabod yr angen i sicrhau bod pawb yn symud i'r un cyfeiriad ac wedi annog a chynghori partïon â diddordeb i gysylltu â Chyngor y Fro am gyngor cyn mynd ymhellach.

Holodd y Cynghorydd Cox a fyddai'r Bwrdd Prosiect yn gwahodd arbenigwyr mewn gwahanol feysydd i gynorthwyo yn y broses ac a fyddai proses adborth i'r ddau gyfeiriad yn cael ei sefydlu gyda Chynghorau Tref a Chymuned yn y Fro. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth wrth y Pwyllgor y byddai arbenigwyr yn cael eu gwahodd a chyfeiriodd at enghreifftiau o waith sy'n mynd rhagddo - yn ymwneud â phwyntiau gwefru trydan a gweithio gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru.

O ran Cynghorau Tref a Chymuned, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth fod ymrwymiad i arweinyddiaeth gymunedol yn y Cynllun ac yn dilyn cytundeb ag Arweinydd y Cyngor (a roddwyd yn y cyfarfod), byddai'r Cyngor yn sicrhau bod diweddariadau rheolaidd yn cael eu rhoi i Gynghorau Tref a Chymuned drwy adroddiadau'r Cabinet er mwyn gallu rhoi'r mater ar eu hagendâu i'w hystyried.

Tynnodd y Cynghorydd King, gyda chaniatâd i siarad, sylw at y bwriad i gaffael ceir trydan bach (drwy'r P-RC (Bargen Ddinesig)) y gallai pobl eu llogi i'w treialu a oedd, yn ei farn ef, yn gyfle da iawn.

Awgrymodd y Cadeirydd y byddai'n fuddiol pe gellid darparu diweddariadau ar wefan y Cyngor i roi gwybod am gynnydd ac i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gwaith sy'n cael ei wneud a bod y Trydydd Sector hefyd yn cael ei gynnwys.

Awgrymodd y Cadeirydd ymhellach hefyd y dylid rhoi pwyslais ar ailddefnyddio yn ogystal ag ailgylchu a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ôl-ffitio tai.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd, gyda chaniatâd i siarad, mai un o'r problemau i'r Cyngor oedd bod gan bobl y sgiliau cywir i fynd i'r afael â rhai o'r dyheadau.

I gloi, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth wrth y Pwyllgor y byddai'n adlewyrchu holl sylwadau ac awgrymiadau'r Pwyllgor yn y Cynllun Gweithredu gan

ARGYMELL -

(1) Y DYLID cefnogi penderfyniadau'r Cabinet.

(2) Y DYLID cyflwyno diweddariadau pellach ar Brosiect Sero a'r Cynllun Gweithredu i'r Pwyllgor Craffu o leiaf dair gwaith y flwyddyn.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1&2) Rhoi sylw i'r trafodaethau yn y cyfarfod.

559 GORCHYMYN BWRDEISTREF SIROL BRO MORGANNWG
(TREFNIADAU ETHOLIADOL) 2021 (SCE) –

Dechreuodd y Swyddog Cofrestru Etholiadol drwy ddweud, ar ôl cwblhau rhaglen o arolygon trefniadau etholiadol o bob Cyngor Sir / Cyngor Bwrdeistref Sirol yng Nghymru, fod Comisiwn Ffiniau Cymru ("y Comisiwn") wedi cyflwyno pob un o'i 22 o'i Adroddiadau Argymhellion Terfynol i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i'w hystyried.

Gwnaed nifer o Orchmynion cysylltiedig hefyd gan Lywodraeth Cymru gan gynnwys Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021 ("y Gorchymyn") a wnaed ar 11 Hydref 2021 a oedd wedi'i atodi yn Atodiad A i'r adroddiad.

Nodwyd y byddai'r trefniadau etholiadol diwygiedig yn dod i rym ar 5 Mai, 2022, yn barod ar gyfer Etholiadau Lleol 2022, pryd y byddai'r wardiau etholiadol presennol yn cael eu diddymu. O ganlyniad i'r Gorchymyn, byddai nifer o Ddosbarthiadau Etholiadol o fewn gwahanol wardiau etholiadol a bu angen nifer o newidiadau i gyfeirnodau'r Dosbarthiadau Etholiadol a manylwyd ar y rhain yn Atodiad B ac C i'r adroddiad. Nodwyd hefyd y byddai cyfeirnodau'r Dosbarthiadau Etholiadol hefyd yn berthnasol i Wardiau Cymunedol ac y byddai ffiniau Cyngorau Tref a Chymuned yn aros yr un fath yn sgil y Gorchymyn gyda'r Adolygiad Cymunedol ar gyfer Bro Morgannwg i'w gynnal yn 2023.

Tynnodd y Swyddog Cofrestru Etholiadol sylw at y rhestr o ardaloedd pleidleisio gan ddweud bod y cyfeiriad at JGO yn Atodiad C yn gamgymeriad ac y dylid ei ddileu.

Wedi ystyried yr adroddiad, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMELL -

- (1) BOD y Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021 ("y Gorchymyn") sydd ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad yn cael ei nodi.
- (2) BOD ffiniau'r wardiau etholiadol canlyniadol yn cael eu nodi, ac y dylid argymell i'r Cabinet gymeradwyo'r diwygiadau i'r Ardaloedd Pleidleisio fel y nodir yn Atodiad B i'r adroddiad.
- (3) BOD y Cabinet y cael cais i nodi'r cyfeiriad at y Dosbarthiadau Etholiadol fel y nodir yn Atodiad C yn amodol ar ddileu'r cyfeiriad at y dosbarth etholiadol JGO gan fod hwn yn gamgymeriad teipograffyddol.

No.

(4) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Cabinet a'r Cyngor i'w ystyried ac er gwybodaeth at y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol a phob Cyngor Tref a Chymuned ym Mro Morgannwg.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Rhoi ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) O ystyried cynnwys yr adroddiad ac er mwyn cyfeirio'r mater at y Cabinet a'r Cyngor i'w hystyried a chymeradwyo'r Dosbarthiadau Etholiadol a nodir yn Atodiad B.

(3) Ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(4) Er mwyn i'r Cabinet a'r Cyngor gael eu gweld ar y Gorchymyn, ffiniau'r wardiau etholiadol cysylltiedig, a'r newidiadau cyfeirio i'r Dosbarthiadau Etholiadol, a bod y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol a'r holl Gyngorau Tref a Chymuned yn cael eu hysbysu o'r un peth.

560 LLEOEDD PLEIDLEISIO A GORSAFOEDD PLEIDLEISIO: ADOLYGIAD BACH (SCE) -

Cynhaliwyd adolygiad bach o Fannau a Gorsafoedd Pleidleisio gan ystyried adborth gan Lywyddion a sylwadau a wnaed gan randdeiliaid yn dilyn Etholiadau'r Senedd a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddau ym mis Mai 2021. Rhoddwyd sylw hefyd i'r mesurau diogelwch Covid a oedd ar waith ar y pryd ac y rhagwelir ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022.

Dywedodd y Swyddog Canlyniadau a'r Swyddog Cofrestru Etholiadol, wrth gyflwyno'r adroddiad, fod ymweliadau wedi bod fel rhan o'r adolygiad bach i bob un o'r Mannau a'r Gorsafoedd Pleidleisio presennol ac arfaethedig a nodwyd fel rhai oedd angen rhoi sylw iddynt, a bod ymgynghori wedi bod gydag Aelodau Ward Lleol. Nodwyd ymhellach bod y newidiadau arfaethedig a nodwyd ym mharagraffau 2.1 – 2.17 o'r adroddiad i'w gweithredu yn barod ar gyfer yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022.

Roedd yr arolwg bach hefyd yn cynnig creu Gorsaf Bleidleisio ychwanegol mewn Man Pleidleisio presennol lle'r oedd dwy ward etholiadol yn defnyddio'r un Man Pleidleisio.

Roedd canlyniad yr arolwg bach a'r newidiadau oedd yn eu hargymell i Fannau a/neu Orsafoedd Pleidleisio mewn nifer o wardiau etholiadol yn adlewyrchu newidiadau a wnaed gan Orchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Trefniadau Etholiadol) 2021 ("Gorchymyn 2021"). Dywedodd y Swyddog Canlyniadau fod landlord y Glenbrook Inn wedi dweud ers drafftio'r adroddiad fod ystafell ychwanegol ar gael ac felly bod Atodiad 5 i'r adroddiad yn cael ei ddiwygio i gyfeirio at Orsafoedd Pleidleisio A a B o fewn y Glenbrook Inn.

No.

Holodd y Cynghorydd Carroll, wrth gyfeirio at faint y dosbarth etholiadol ar gyfer HC1 a HD1 a'r pellter i breswylwyr deithio i'r orsaf arfaethedig yn Glenbrook Inn, pam na ellid defnyddio maes parcio archfarchnad gyfagos. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Canlyniadau nad oedd y maes parcio'n cael ei ystyried yn fan pleidleisio addas oherwydd problemau'n ymwneud â'i dopograffeg.

Gwnaeth y Pwyllgor Craffu, ar ôl ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

ARGYMELL -

(1) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio i'r Cabinet i'w gymeradwyo er mwyn cytuno ar y newidiadau arfaethedig i'r Mannau Pleidleisio a / neu'r Gorsafoddedd Pleidleisio fel y'u nodir ym mharagraffau 2.1 – 2.17 o'r adroddiad.

(2) BOD, yn amodol ar ddiwygio Atodiad 5 i gyfeirio at Orsafoddedd Pleidleisio A a B o fewn y Glenbrook Inn, y Cabinet yn cael cais igyfeirio'r adroddiad at y Cyngor i'w ystyried gyda'r bwriad o gymeradwyo'r newidiadau arfaethedig ar unwaith ac i bob Cyngor Tref a Chymuned a'r Pwyllgor Cyswllt Cymunedol er gwybodaeth.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1&2) O ystyried swyddogaethau statudol y Cyngor o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983; a chraffu cyn y Cabinet ar y cynigion a geir yn yr adroddiad a fyddai'n helpu i wella profiad pleidleisio etholwyr a chodi ymwybyddiaeth ac yn dilyn trafodaethau yn y cyfarfod ynghylch Glenbrook Inn.